PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 18 | Ebrill 30, 2026 | 50c.

## Pum Peth Personol yng Nglannau Ogwr

Wedi lansio'r 'Pum Peth Personol' yn yr ofalaeth ar gychwyn y flwyddyn, bu ein hoedfaon yn canolbwyntio'n bennaf ar fwyd, yr amgylchedd, a'n rôl ni fel eglwysi ac unigolion i fod yn stiwardiaid ffyddlon o'r greadigaeth. Fel rhan o'r ymgyrch, roedd ein taflen newyddion wythnosol yn cynnwys rysáit bob wythnos, gan ein hannog i beidio gwastraffu bwyd a chreu prydau bwyd o'r cynhwysion sydd eisoes ar gael yn y gegin.

Yn ôl gwefan Llywodraeth Cymru, rydym yn gwastraffu tua 400,000 tunnell o fwyd bob blwyddyn yng Nghymru (2025). Mae hyn yn ein hatgoffa fod cyfrifoldeb ar bob un ohonom i feithrin perthynas iach â bwyd, ac i beidio â chael ein llyncu gan ddiwylliant ein hoes o or-brynu.

### Picnic Pum Peth

Yng nghanol cyfnod y Grawys, er nad oedd y tywydd yn berffaith ar gyfer picnic, aethom draw i barc Bryngarw ar gyrion Pen-y-bont ar Ogwr. Nod y picnic oedd mynd allan i'r awyr agored, cerdded, a chymryd amser i sylwi ar natur a harddwch creadigaeth Duw. Roedd cyfle i adnabod a sylwi ar sŵn yr adar a rhyfeddu at





yr amrywiaeth. Cafwyd ambell ddarlleniad ymhlith y coed, a gweddi wrth y llyn, cyn ymuno â'n gilydd o amgylch y bwrdd ar gyfer picnic 'Pum Peth', lle'r oedd pawb wedi dod â'u pecyn bwyd eu hunain. Roedd hwn yn gyfle gwerthfawr i gymdeithasu a sgwrsio am fwyd, ond hefyd yn gyfle i fyfyrio ar ein cyfrifoldeb fel Cristnogion i ofalu am y greadigaeth.




## Cymanfa'r sêr

Gyda'r holl ddiddordeb a'r cynnwrf parthed roced Artemis wedi teithio y tu hwnt i'r lleuad a dychwelyd ei chriw yn ddiogel i'r blaned ddaear yn ystod mis Ebrill, dylem gofio am gymanfa dra gwahanol a gynhaliwyd yng nghapel Ebeneser, Dinas Mawddwy ychydig o wythnosau'n ôl. Prosiect gan gwmni Adverse Camber oedd Cysur y Sêr lle bu 10 o chwedleuwyr yn cynnal gweithgareddau cymunedol ledled Cymru yn rhannu straeon a chwedlau'r Ffurfafen



Cynhaliwyd Cymanfa Cysur y Sêr ar y 18fed o'r Mis Bach, ar noson aeafol pan roedd yr eira unwaith eto yn bygwth tarfu ar ein trefniadau. Ond trwy drugaredd fe gadwodd yr eira draw a chawsom noson ddisglair, wedi ei threfnu gan Mair Tomos Ifans. Roedd nifer o emynau cyfarwydd ac ambell un dieithr wedi eu dethol ac mewn ambell achos wedi eu hailddarganfod. Roedd pob un yn gysylltiedig â thema'r sêr, yr wybren neu'r ffurfafen. Un o'r rhai llai cyfarwydd neu un oedd wedi ei hailddarganfod oedd emyn gan Tom Jones o Landinorwig ar y dôn Stuttgart. Cafwyd hefyd emyn plygain ar y mesur Mentra Gwen, y geiriau wedi eu cyfansoddi gan Mair ei hun yn cynnwys y geiriau hyfryd hyn:

Pan fo llwybr yn aneglur
A bywyd yn ddi-strwythur
Llawn hiraeth blin, didostur,
Fe ddaw'r sêr, fe ddaw'r sêr,
A chawn ddrachtio'n ddwfn o'r
cysur ddaw o'r sêr.



Hefyd yn ychwanegu at y naws a'r hwyl ar y noson oedd Sioned Webb gyda chyfraniad grymus wrth iddi gefnogi Mair ac ysgogi pawb i ymuno gyda brwdfrydedd.

*parhad ar dudalen 2*

# Y drysau ar glo

Fyddwch chi'n cloi drws y tŷ neu ddrws y car? I rai, arwydd o'r newid a fu ydi'r ffaith fod rhaid cloi'r naill a'r llall. Eu cloi wnaf fi: cloi'r car wrth ei barcio a chloi'r tŷ wrth ei adael. Nid am fy mod yn credu fod pethau wedi gwaethygu'n ddiweddar ond am mai dyna a wnaethom o'r dyddiau cynnar yn Abersoch ymlaen. Dyna sydd orau wrth gwrs o gofio cynifer o ddieithriaid sy'n cerdded heibio i'n tŷ ni yn Llanberis bob dydd. Nid y byddai hynny wastad wedi sicrhau tŷ diogel chwaith! Yn gymharol ddiweddar y deallon ni fod yr hogiau, pan oedden nhw'n iau, wedi dod adref fwy nag unwaith a defnyddio ysgol eu taid i ddringo trwy ffenest un o'r llofftydd! Tasan nhw wedi rhannu'r wybodaeth yn gynharach, mae'n debyg y byddai eu rhieni wedi ymorol mwy am gau'r ffenestri cyn gadael cartref!



'Gyda'r nos ar y dydd cyntaf hwnnw o'r wythnos, yr oedd y drysau wedi eu cloi lle'r oedd y disgyblion.' (Ioan 20:19) Nos Sul y Pasg oedd hi, a'r disgyblion wedi clywed y bore hwnnw am atgyfodiad Iesu. Ac 'oherwydd eu bod yn ofni'r Iddewon' roedd y drysau ar glo a'r disgyblion yn llechu, heb fentro o'r tŷ. Ond daeth Iesu atyn nhw er hynny. Dangosodd olion y clwyfau ar ei ddwylo a'i ystlys a llawenychodd y disgyblion o'i weld yn ôl yn fyw. Mi gofiwch nad oedd Thomas efo nhw'r noson honno a'i fod yn amharod i gredu fod Iesu wedi dod o'r bedd. Ond roedd o efo nhw'r nos Sul ganlynol pan ddaeth Iesu atyn nhw drachefn a gwahodd Thomas i roi ei fys yn ôl yr hoelion. Wnaeth o mo hynny, ond yn hytrach cydnabod, 'Fy Arglwydd a'm Duw.' (20:28) A phan feddyliwn am y Sul cyntaf wedi'r Pasg, am 'Thomas yr amheuwr' y cofiwn.

Ond gadawn Thomas am y tro, a dal sylw ar un manylyn bach o'r hanes. 'Ac ymhen yr wythnos ... dyma Iesu'n dod, er bod y drysau wedi eu cloi.' (20:26) Roedd y drysau dal ar glo! Cawsai'r disgyblion brawf o'r atgyfodiad. Roedden nhw wedi gweld a chlywed Iesu. Ond doedden nhw ddim wedi mentro allan. Roedden nhw'n dal i lechu yn y tŷ; yn dal i ofni. Does ryfedd fod Iesu wedi sôn am eu hangen am yr Ysbryd Glân (20:22).

Dyw gwybod a chredu'r gwir, er pwysiced hynny, ddim o reidrwydd yn newid ymddygiad. Mae arnom ninnau angen yr Ysbryd Glân i'n harwain a'n nerthu i fentro allan i rannu'r Efengyl.

**John Pritchard**
(Allan a *Llais Aled* 12 Ebrill 2026)

# Cymanfa'r sêr – *parhad*




Cafwyd saib ar ganol gweithgareddau Mair a Sioned pan arddangoswyd detholiad o luniau gan Dafydd Wyn Morgan o Dregaron. Roedd Dafydd ei hun yn bresennol ac fe esboniodd gefndir a lleoliad ei luniau hynod o'r sêr. Roedd y lluniau yn wirioneddol drawiadol gan gynnwys un o Ynys Enlli o Lewyrch yr Arth, ac roedd ymateb y gynulleidfa yn dweud cyfrolau am eu hansawdd yn dangos cyfoeth y Cread.

Noson a Chymanfa ychydig yn wahanol, ond un a oedd wedi cydio yn nychymyg pawb oedd yno a chodi blas am ragor. Diolch yn fawr i Mair, Sioned a Dafydd am noson hyfryd dros ben ac fe gasglwyd £235 tuag at Uned Seren Wib Ysbyty Maelor.

**Euron Hughes**

Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

## Cyfres o chwe sesiwn yn archwilio gwahanol agweddau o fywyd yr eglwys.

Cyfarfodydd ar nos Fawrth am 7:00

| | |
|---|---|
| 05/05 | **Gweinyddu Eglwys**<br>Ifan Alun Puw |
| 12/05 | **Cynnal Cyfarfod Eglwys**<br>Parchg Ddr Alun Tudur |
| 19/05 | **Beth yw Diacon?**<br>Parchg Beti-Wyn James |
| 02/06 | **Cynllunio'n Cenhadaeth**<br>Gwilym Jeffs |
| 09/06 | **Gweinyddu'r Sacramentau**<br>Parchg Carwyn Siddall |
| 16/06 | **Timoedd yn arwain yr eglwys**<br>Dan arweiniad aelodau Peniel a Bwlchycorn |

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Parchedig Carwyn Siddall,

carwyn@annibynwyr.cymru

**LLEOLIADAU'R HYBIAU**

- Emaus, Bangor, LL57 1NS
- Siloh, Chwilog, LL53 6SH
- Bethel, Melin y Coed, LL26 0SL
- Canolfan Henblas, Y Bala, LL23 7AE
- Neuadd Dinas Mawddwy, SY20 9JD
- Moriah, Llanfair Caereinion, SY21 0DN
- Y Neuadd, Maenclochog, SA66 7JY
- Gellimanwydd, Rhydaman, SA18 2NA
- Bethlehem Newydd, Pwll-Trap, SA33 4AN
- Capel y Nant, Clydach, SA6 5HB
- Tabernacl, Porthcawl, CF36 3DW
- Capel Minny Street, Caerdydd, CF24 4ER

*Ym mha hwb fyddwch chi?*

*Croeso cynnes i bawb!*




## PROSIECT DENMAN 2026

Ein hysgol Sul: **'Newid ein byd er gwell'**

Ewch ati i greu podlediad / hysbyseb / fideo (hyd at 5 munud o hyd) neu waith celf ar y thema 'Newid ein byd er gwell'



Erbyn dydd Iau
4 Mehefin 2026

E-bostiwch:
rhodri@annibynwyr.cymru

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ



MANYLION:

01792 795888

annibynwyr.cymru

Yr Adran Gydenwadol

30 Ebrill 2026
Rhifyn 270

I ddarllen y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

# Arweinwyr ffydd yn llofnodi datganiad o undod



Daeth arweinwyr prif gymunedau ffydd Cymru ynghyd yn y Deml Heddwch ym Mharc Cathays, Caerdydd, ddydd Llun, 20 Ebrill, i lofnodi datganiad cyhoeddus o undod wrth inni baratoi ar gyfer etholiadau'r Senedd. Gellir darllen y datganiad ar dudalen Facebook Cytûn. Dyma'r hyn a rannodd Cynan Dafydd Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn, yn y digwyddiad:



'Mae'n fraint sefyll yma heddiw, ac yn anrhydedd arbennig gwneud hynny ochr yn ochr ag arweinwyr Cristnogol, Mwslemaidd ac Iddewig wrth inni gadarnhau ein hymrwymiad cyffredin i heddwch a chyfeillgarwch. Mewn dyddiau a nodweddir gan ryfel, ofn, rhaniadau ac ansicrwydd, mae'r foment hon yn bwysig. Mae'n bwysig am ei bod yn dweud, yn gyhoeddus ac yn eglur, nad oes rhaid i ffydd arwain at amheuaeth na gelyniaeth, ond y gall fod yn rym ar gyfer iacháu, dewrder a gobaith.

'Fel Cristion, rwyf am ddweud yn glir pam fy mod i yma. Rwyf yma oherwydd Iesu Grist. Iesu Grist, yr hwn y mae Cristnogion yn ei ddilyn, yw Tywysog Tangnefedd. Ef yw'r un a'n dysgodd mai'r gorchmynion mwyaf yw caru Duw a charu ein cymydog. Ef yw'r un nad oedd ei gariad byth yn gul nac yn amodol, ond a roddwyd yn rhad i'r rhai a anwybyddwyd, yr estron, y tlawd, y clwyfedig, a'r dieithryn. Fe ddymchwelodd rwystrau gelyniaethus. Croesodd ffiniau yr oedd eraill yn ofni eu croesi. Galwodd ei ddilynwyr nid i dra-arglwyddiaethu, ond i wasanaethu; nid i ennyn casineb, ond i geisio heddwch. Darostyngodd ei hun hyd angau, ie, angau ar groes. Felly, i Gristnogion ac eglwysi, dylai'r diwrnod hwn ein hatgoffa pwy yw ein Harglwydd, ac felly ein hatgoffa o beth y gelwir ni i fod. Tangnefeddwyr.

'Ac i'n ffrindiau Mwslemaidd ac Iddewig, rwyf am ddweud hyn gyda didwylledd a gostyngeiddrwydd: rydym yn sefyll gyda chi mewn ymrwymiad cyffredin i heddwch a chymod. Rydym yn anrhydeddu eich presenoldeb, eich cyfeillgarwch, a'ch tystiolaeth. Gwyddom fod ymddiriedaeth yn cael ei hadeiladu nid yn unig gan eiriau a leferir mewn seremonïau fel hyn, ond gan berthnasoedd, undod, a dewrder a ddangosir dros amser. Rydym wedi ymrwymo i'r gwaith hwnnw.


'Rwyf hefyd am ddweud, yn dyner ond yn ddiamwys, nad yw'r rhai sy'n lapio creulondeb mewn iaith Gristnogol, nac yn gwisgo gwaharddiad mewn symbolau crefyddol, yn siarad dros Gristnogaeth. Nid yw gwleidyddiaeth greulon, boed fel y'i gwelir yn Trump, yn MAGA, yn ralïau Unite the Kingdom, mewn rhai pleidiau gwleidyddol sy'n sefyll yn yr etholiad yma yng Nghymru ymhen tair wythnos, nac yn y rhai sy'n cario croesau fel bathodynnau rhaniadau yn hytrach nag arwyddion o gariad hunanaberthol, yn cynrychioli'r Efengyl a gyhoeddwn. Nid arf ofn yw croes Crist, ond arwydd o gariad sy'n cymodi.

'Felly boed i hyn fod yn fwy na llofnod. Boed iddo fod yn dystiolaeth. Tystiolaeth y gallwn ni yng Nghymru anghytuno'n ddwfn, ac eto barhau i gerdded gyda'n gilydd mewn haelioni a pharch. Tystiolaeth na chaiff casineb y gair olaf. A thystiolaeth fod heddwch yn dal yn bosibl, trwy ras Duw.'

*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




**Codi'r Llen 19**

## Ymson Jael

Mae'r babell yn dawel, mor dawel fel y gallai rhywun glywed pìn yn disgyn. Oedodd y gwynt tu fas i'r babell, fel pe bai'n gwybod bod rhywbeth ar droed. Ar fy nwylo mae arogl gwlân, llaeth a phridd – pethau arferol, bob dydd, diniwed. Cadw cartref cysurus, paratoi lluniaeth, gofalu – dyna rythm fy mywyd.

Ac eto, tu fas i'r muriau hyn, mae dynion yn colli gwaed er mwyn ennill grym, a hwnnw'n suddo wedyn yn sydyn fel tywod mân. Daeth y brwydro'n agosach, a dechreuodd fy nghalon innau guro'n gyflymach heddiw.

Mae rhywun yn nesáu. Gallaf deimlo rhywbeth yn cyniwair ym mêr fy esgyrn. Pan welaf Sisera, o'r diwedd, yn nrws y babell, synnaf mor fach ydyw. Clywais amdano fel dyn nerthol, arweinydd sy'n ddigon cryf i ladd dynion dirifedi. Ond, y funud hon, heddiw, gwelaf yr ymbil yn ei lygaid am harbwr diogel.

Heb feddwl, cyfeiriaf ef i mewn. Mae'n gofyn am ddŵr, ond rhoddaf laeth iddo a charthen dros ei ysgwyddau. Clywaf fy llais fy hun yn diferu fel diliau mêl – yn dweud wrtho nad oes raid iddo ofni. Rwy'n troi fy hun yn hafan.

Mae'n ymddiried ynof yn rhy hawdd oherwydd ei flinder ac yn gofyn imi wylio tu fas i'r babell. Wedi iddo orwedd, af i mewn. Gosodaf gwrlid dros ei gorff a synhwyro'i anadlu araf. Gwyliaf ef yn disgyn i drwmgwsg.

Caeaf fy llygaid, nid i gysgu, ond i feddwl. Mae'r morthwyl ac un o hoelion y babell gen i. Nid cleddyfau mohonynt, ond teimlaf drymder eu pwysau ar fy meddwl. Mae gen i ddewis: fe allaf eu defnyddio neu fe allaf benderfynu gwneud dim. Os na weithredaf nawr, bydd y dyn hwn yn codi eto. Os bydd e'n codi eto, bydd eraill yn disgyn.

Erbyn hyn, mae curiad fy nghalon mor uchel fel na allaf glywed fy meddyliau fy hun. Dwi'n ofni y bydd yn deffro; safaf uwch ei ben yn dawel. Oes, mae gen i ddewis, ond ai dyma'r eiliad i weithredu?

Daw rhyw nerth o rywle ac yn sydyn rwy'n gweld fy nghyfle. Anelaf yr hoelen a daw'r morthwyl i lawr. Mae'r sŵn yn echrydus. Mae'r gwaed yn tasgu. Dechreuaf grynu.

Digwyddodd y peth heb imi gael amser i feddwl, bron fel petai ffawd yn fy meddiannu! Beth ddigwyddodd i mi? Ydw i nawr yn llofrudd? Roeddwn bob amser wedi meddwl bod bywyd wedi'i rannu'n dda neu'n ddrwg. Meddyliais fod llwybrau y gallwn ni i gyd ddewis eu troedio neu beidio â gwneud hynny. Ond nawr rwy'n sylweddoli mor gyflym y gall y llwybrau hynny ddiflannu o dan ein traed. Fe gamais i oddi ar fy llwybr diogel. Does 'na ddim troi 'nôl nawr.

Clywaf y gwynt tu fas yn amgylchynu'r babell eto. Mae'r byd yn anadlu'n ddwfn unwaith yn rhagor ar ôl oedi ennyd. Fe ddaw eraill toc. Arogl marwolaeth fydd yn eu tynnu yma.

Rhoddant enw i'm gweithred. Efallai y byddant yn dweud imi fod yn ddewr, neu efallai'n greulon. Efallai y byddant yn fy nilorni am fod yn forwyn ffawd. Oedd gen i ddewis? Duw a ŵyr! Os oedd, neu os nac oedd, dyma fy ngwirionedd i – y byddaf yn cario'r weithred hon gyda mi weddill fy nyddiau.

### Holi

- Gwireddu proffwydoliaeth Debora a wna Jael ('Bydd yr Arglwydd yn trefnu mai gwraig fydd yn delio gyda Sisera.' Barnwyr 4:9). Mae'n weithred dreisgar tu hwnt, ond roedd Sisera, oedd yn gadfridog ym myddin y Brenin Jaban, hefyd yn ddyn treisgar. Beth yw eich ymateb?
- Cymerodd Jael gamau herfeiddiol mewn sefyllfa beryglus. Oes amserau neu sefyllfaoedd sy'n golygu bod yn rhaid cymryd camau anodd i wneud yr hyn a gredir sy'n iawn?
- Nid oedd Jael yn arweinydd fel Debora a Barac; er hynny, chwaraeodd ran flaenllaw yn y stori. A yw hi'n dangos bod gan bersonau cyffredin rôl wrth siapio'r dyfodol i bawb heddiw?
- Mae Jael yn defnyddio'r arfer o gynnig lletygarwch yn strategol. Byddai rhai hefyd yn dweud ei bod wedi bod yn gyfrwys! Beth ddywed hyn wrthym ni am ymddiriedaeth, ffiniau, a doethineb?
- A dychwelyd at y cwestiwn agoriadol ar ôl eich trafodaeth, a welwch chi weithred Jael nawr fel eiliad oedd yn cynnig cyfle? Beth allai 'gweld ein cyfle' olygu yn ein bywydau (eglwysig neu fel unigolion)?

### Gweddi

Diolchwn am y straeon o'r Ysgrythur
sy'n ein herio i feddwl.
Pan fyddwn mewn sefyllfa anodd,
gofynnwn am ddoethineb.
Pan wynebwn benderfyniadau
cymhleth, gofynnwn am arweiniad.
Pan nad yw'r llwybr ymlaen yn glir,
gofynnwn am ddirnadaeth,
a gras i weithredu'n gyfiawn.
Pan ddaw eiliadau sy'n cynnig cyfle,
gofynnwn am ddewrder i'w
defnyddio gyda ffydd a hyder ynot Ti.
Amen.

*Sian Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 3 Mai 2026**

**Radio Cymru**
*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 3 Mai, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Esyllt Maelor, Morfa Nefyn

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 3 Mai am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad James Tout, Wrecsam

*S4C*
*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 3 Mai, am 7:30yh**
Bydd Nia Roberts yn ein tywys ar daith ddiwylliannol drwy Fro Morgannwg

# Cytûn yn cyhoeddi diweddariad i Friff Maniffestos Etholiad y Senedd 2026

**Gan fod y chwe phrif blaid sy'n cystadlu yn etholiad y Senedd ar 7 Mai 2026 wedi cyhoeddi eu maniffestos llawn, mae Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru wedi rhyddhau Diweddariad i Friff Maniffestos Etholiad y Senedd 2026 — atodiad manwl i'r ddogfen a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026.**

Bwriad y dadansoddiad hwn yw helpu cymunedau ffydd i ymgysylltu ag etholiad y Senedd, gan atgoffa pleidleiswyr y bydd enwau ymgeiswyr annibynnol a phleidiau llai hefyd ar y papur pleidleisio. Roedd y briff gwreiddiol yn seiliedig ar yr awgrymiadau o ran polisïau ac ymrwymiadau'r pleidiau oedd ar gael ar y pryd. Mae'r diweddariad yn adolygu'r maniffestos gorffenedig yn llawn, gyda dadansoddiad economaidd annibynnol — gan gynnwys asesiadau gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol — i gynnig cymhariaeth fwy manwl a chynhwysfawr o'r hyn y mae pob plaid yn ei addo mewn gwirionedd.

## Beth sy'n newydd yn y diweddariad?

Mae'r diweddariad yn archwilio'r chwe phlaid ar draws pum maes polisi blaenoriaeth Cytûn: Iechyd, Addysg, yr Economi, Materion Rhyngwladol a Newid Hinsawdd, a'r Eglwys a'r Dinesydd.

Ar **iechyd**, mae amseroedd aros y GIG yn flaenllaw yn agenda pob plaid. Mae Llafur yn cynnig Cronfa Ysbytai'r Dyfodol o £4 biliwn; mae Plaid Cymru am osod targedau amser aros penodol; byddai'r Ceidwadwyr yn cyhoeddi argyfwng iechyd ar ddod i rym; byddai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn buddsoddi £300 miliwn mewn gofal cymdeithasol wedi'i ariannu gan godiad treth incwm o 1c; ac mae'r Gwyrddion yn gosod ataliad ac ymyrraeth gynnar wrth wraidd eu gweledigaeth iechyd. Mae Reform UK yn ymrwymo i leihau amseroedd aros drwy arbedion effeithlonrwydd.




Ar yr **economi**, y gwahaniaeth mwyaf amlwg yw'r un ar drethiant. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cynnig toriad o 1c i'r gyfradd sylfaenol o dreth incwm a diddymu'r Dreth Trafodiadau Tir ar brynu cartrefi — ymrwymiadau y mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllidol wedi'u disgrifio fel rhai anodd eu cysoni â chynlluniau gwariant ehangach y blaid. Y Democratiaid Rhyddfrydol yw'r unig blaid sy'n cynnig codi'r dreth. Mae'r Gwyrddion yn cynnig disodli'r dreth gyngor yn gyfan gwbl â Threth Gwerth Tir.

Ar y **Genedl Noddfa** — fframwaith cymorth Cymru i ffoaduriaid a cheiswyr lloches — mae Llafur, Plaid Cymru, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Gwyrddion i gyd yn cefnogi cynnal a datblygu'r polisi, tra mae'r Ceidwadwyr a Reform UK ill dau wedi addo ei ddiddymu. Dylai aelodau fod yn ymwybodol na all y rhan fwyaf o addewidion mewnfudo yn yr etholiad hwn gael eu cyflawni gan y Senedd, gan fod mewnfudo yn fater dan awdurdod San Steffan.

## Cyfweliadau ag ymgeiswyr

Mae Cytûn wedi cyhoeddi cyfweliadau â chynrychiolwyr pump o'r chwe phrif blaid, yn archwilio'u safbwyntiau ar faterion o bwys i gymunedau ffydd yng Nghymru. Mae'r cyfweliadau ar gael nawr ar www.cytun.co.uk.

Mae cyfweliad â chynrychiolydd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig yn cael ei drefnu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyhoeddi ar y wefan maes o law.

Mae Cytûn yn annog darllenwyr i wrando ar yr holl gyfweliadau fel rhan o'u myfyrdod gweddigar cyn diwrnod y bleidlais ar 7 Mai.

## Pwy fydd ar eich papur pleidleisio?

Er bod y chwe phrif blaid — Llafur Cymru, Plaid Cymru, y Ceidwadwyr Cymreig, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Reform UK, a Phlaid Werdd Cymru — i gyd wedi cyhoeddi maniffestos llawn ac yn cystadlu am seddi ledled Cymru, efallai y bydd pleidleiswyr yn gweld ymgeiswyr o ystod ehangach o safbwyntiau gwleidyddol ar eu papurau pleidleisio. Bydd pleidiau llai ac ymgeiswyr annibynnol yn sefyll mewn etholaethau ar draws Cymru, ac o dan y system gyfrannol newydd mae eu pleidleisiau yn cyfrif go iawn.

Dyma'r etholiad Senedd cyntaf a gynhelir dan system gyfrannol: etholir 96 Aelod ar draws 16 etholaeth chwe-aelod drwy ddull D'Hondt. Nid yw unrhyw blaid sengl yn disgwyl ennill mwyafrif cyffredinol, sy'n golygu y gallai blaenoriaethau pleidiau llai ac ymgeiswyr annibynnol fod yn allweddol wrth lunio Llywodraeth Cymru nesaf.

I ddarganfod pwy sy'n sefyll yn eich etholaeth — gan gynnwys pob ymgeisydd plaid lai ac annibynnol — ewch i whocanivotefor.wales, adnodd annibynnol a di-blaid sy'n rhestru pob ymgeisydd ar y papur pleidleisio yn eich ardal.

## Ymgysylltu mewn gweddi ac yn feddylgar

Nid yw Cytûn yn cefnogi unrhyw blaid nac ymgeisydd. Mae'r briffiau hyn yn bodoli i helpu arweinwyr enwadol, cymunedau eglwysig lleol, ac aelodau unigol o'r ffydd i ymgysylltu â'r etholiad hwn yn feddylgar, mewn gweddi, a chydag ymwybyddiaeth dda. Anogir cymunedau ffydd i gynnal neu fynychu digwyddiadau dadleuon cyn 7 Mai, i ddefnyddio'r briff hwn fel sail ar gyfer trafodaeth grŵp, myfyrio neu weddi, ac i annog pob aelod cymwys i arfer eu hawl ddemocrataidd a phleidleisio ar 7 Mai 2026.

Mae fersiwn llawn o'r *Diweddariad i Friff Maniffesto Etholiad y Senedd 2026* ar gael ar www.cytun.co.uk. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â post@cytun.cymru.

# Cynnal

Mewn cyfarfod diweddar ag arweinyddiaeth yr enwad, cytunwyd y byddwn yn rhannu'n gryno am waith Cynnal yn *Y Tyst* er mwyn annog cyfundebau ac eglwysi i ystyried cyfrannu'n ariannol at y gwasanaeth hwn sy'n cefnogi gweinidogion, gweithwyr Cristnogol a'u teuluoedd ledled Cymru. Ers 2015, mae tua 300 o unigolion wedi derbyn cymorth drwy Cynnal. Ar hyn o bryd, mae 42 yn cael eu cefnogi'n rheolaidd drwy gwnsela un-i-un, a 74 yn cymryd rhan mewn grwpiau therapi wythnosol a misol, ar-lein ac wyneb yn wyneb. Dengys y profiadau hyn yn glir fod cymorth parhaus, hirdymor yn allweddol i wellhad a lles.

Dyma dystiolaeth rhai sydd wedi elwa: (Er parch at gyfrinachedd, ni enwir y gweinidogion hyn, ond mae eu geiriau'n adlewyrchu realiti dwfn: bod y gwasanaeth hwn yn hanfodol, nid yn ddewisol.)

'Mae fy sesiynau gyda Cynnal wedi fy achub yn ystod amser mwyaf anodd, mwyaf tywyll fy mywyd. Yn aml, mae'r ffaith bod sesiwn ar y gorwel yn ddigon i fy nghael i drwy'r wythnos.'

'Heb gymorth a chefnogaeth Cynnal ni fyddwn yn fyw heddiw, heb sôn am fod yn y weinidogaeth. Rwyf bellach yn ffynnu, gyda ffocws a gwydnwch newydd, wedi fy nghyfarparu i hyrwyddo Teyrnas Dduw. Ni fyddai hyn yn bosibl heb y cymorth a'r gefnogaeth hirdymor effeithiol barhaus rwyf wedi'i dderbyn.'

'Trwy Cynnal, rwyf wedi derbyn gwellhad o glwyfau sydd wedi bod yn ddegawdau oed. Mae hyn wedi arwain at ymddiriedaeth ddyfnach yn Nuw, wrth i mi weithio allan fy ngalwedigaeth fel gweinidog yr Efengyl yn fy ymddeoliad.'

'Mae'r hen ystrydeb yn dweud mai dim ond ar ddydd Sul mae gweinidogion yn gweithio – ond y gwir yw nad ydym byth yn diffodd yn llwyr. Hyd yn oed pan fydd gwaith y dydd wedi dod i ben, rydym yn parhau i gario'r baich emosiynol ac ysbrydol dros ein praidd, heb sôn am ein gofal dros genhadaeth yr eglwys i'r gymdeithas ehangach. Nid yn unig y bu'r gefnogaeth yn help personol mawr i mi, ond mae hefyd yn golygu bod gan un ardal yng Nghymru weinidog hyd heddiw.'

Yn gyson, gwelwn fod gallu mynegi profiad personol yn y famiaith yn ganolog i iachâd – ac yn hanfodol nid yn unig i les gweinidogion, ond i les y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Ond er mwyn parhau, mae angen sylfaen ariannol gryfach a mwy cynaliadwy.

Felly, ar anogaeth y swyddogion canolog, apeliwn ar bob cyfundeb ac eglwys annibynnol i gamu i mewn i'r cyfrifoldeb hwn. Cefnogwch Cynnal yn ariannol, ond hefyd drwy sicrhau bod eich gweinidogion a'ch gweithwyr yn gwybod bod cymorth ar gael – ac yn cael eu hannog i'w dderbyn.

Gellir gwneud cyfraniadau drwy siec yn ddyladwy i: CYNNAL OF CACE/CAOD

Neu, dalu drwy BACS.
Enw'r cyfrif: CYNNAL OF CACE/CAOD
Cod didoli: 23-05-80
Rhif y cyfrif: 55743017
Cyfeirnod: Enw'r cyfundeb neu'r eglwys
Math y cyfrif: Busnes

Diolch eto am eich cefnogaeth a'ch partneriaeth yn y gwaith hanfodol hwn.

**Wynford Ellis Owen**
Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol Cynnal
E-bost: wynford@recovery-council.org
Ffôn: 07796464045 / 029 2063 0993
Gwefan: www.cynnal.uk
Cyfeiriad: Cynnal d/o Eglwys y Crwys, 77 Richmond Road, Caerdydd CF24 3AR

# Encil gweinidogion yr Annibynwyr

Rhaid dechrau'r adroddiad hwn am Encil y Gweinidogion gyda gair hael a chanmoliaeth sy'n ymestyn hyd y cymylau. Hoffem fynegi ein gwerthfawrogiad mawr i Carwyn Siddall am ei waith trefnu a chydlynu effeithiol ar y digwyddiad hwn fel bod y cwbl wedi rhedeg yn esmwyth. Hefyd diolch yn fawr iawn i'r Undeb am noddi'r encil yn hael.

Eleni fe aeth criw ohonom i ddinas Lerpwl i dreulio tridiau yng nghwmni ein gilydd a bu'n brofiad hwyliog a bendithiol. Ar y cyfan y mae Lerpwl yn ddinas hygyrch i'r rhan fwyaf ohonom ac yn ganolfan sydd wedi datblygu yn ystod y blynyddoedd diweddar. Roeddem yn aros mewn gwesty y drws nesaf i orsaf rheilffordd Lime Street ac felly nid oedd llawer o waith cerdded na chwilota am y lleoliad.

Thema'r encil oedd 'chi roddodd groeso i mi pan doeddwn i ddim yn nabod neb' Mathew 25:35. Yn y Testament Newydd, pwysleisia Iesu'r pwysigrwydd sylfaenol o roi croeso i'r dieithryn a'r dirmygedig. Atgyfnerthir yr egwyddor hon ymhellach yn y llythyrau, er enghraifft yn Hebreaid 13:2, sy'n annog credinwyr i ddangos lletygarwch i ddieithriaid, gan fod rhai, wrth wneud hynny, wedi croesawu angylion heb yn wybod iddynt.

### Dydd Mawrth

Yn dilyn gair o groeso gan Carwyn, cafwyd myfyrdod gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol, Elinor Wyn Reynolds Dilynwyd hyn gan gyflwyniad gan yr Athro Mari Lloyd Williams am y gwaith arbennig a wneir gan ganolfan ddydd eglwys Waengoleugoed. Mae'r ganolfan ar agor i henoed a phobl sâl yn yr ardal am ddeuddydd yr wythnos ac yn gyfle i brofi cwmnïaeth a chymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau. Yr un mor bwysig mae hefyd yn rhoi cyfnod o seibiant i'r rheini sy'n ofalwyr. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnig am ddim gan wirfoddolwyr sy'n cynnwys dwy nyrs arbenigol. Mae'r ganolfan hefyd yn darparu cludiant o ddrws i ddrws sy'n hynod o bwysig mewn ardal wledig

Cafwyd cyflwyniad byr wedyn gan staff yr Undeb yn Nhŷ John Penri am y gwaith amrywiol a gyflawnir ganddynt; o'r cynnyrch digidol ar y wefan i'r gwaith yn ymwneud ag adeiladau ac eiddo'r eglwysi, y gwaith gweinyddol ac ariannol a'r gwahanol gyhoeddiadau. Roedd yn braf cael cyfle i ddod i adnabod y staff yn well a gwybod eu bod yno ar ben arall y ffôn neu gyfrifiadur i gynnig cymorth.

Wedi pryd o fwyd aeth rhai ohonom i weld y sioe 'Miss Saigon' yn theatr hardd yr Empire a oedd gerllaw.

### Dydd Mercher

Roedd y dydd hwn yn llawn gweithgarwch ac addysg. Wedi brecwast gyda'n gilydd fe gafwyd defosiwn gan Gwyndaf Richards. Rhannodd gyda ni beth o'i brofiadau yn byw ac yn gweithio yn Lerpwl ac am yr amrywiaeth mawr o bobl y cafodd y fraint o'u cyfarfod a'u croesawu i Brydain a Lerpwl. Roedd yn wybodus iawn am hynt a helynt eglwysi Cymraeg y ddinas. Bu hefyd yn aelod a diacon o eglwys Bethel o dan arweiniad y Parchg D. Ben Rees. Yna, rhannodd Dylan Rhys wybodaeth am brosiect Onesimws, Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM).

*parhad ar y dudalen gefn*

## Barn Annibynnol

# Beth yw dy ateb?

Fe ddaw Barn Annibynnol ar ffurf ychydig yn wahanol y tro hwn fel holiadur sy'n ein harwain i holi ein hunain ynglŷn â ffydd.

## AROLWG

**Pe baech chi'n dod i'r casgliad pendant nad oes Duw, allwch chi ddychmygu beth fyddai'ch ymateb mwyaf tebygol? Un o'r pedwar dewis isod 'ta rhywbeth gwahanol?**

- Rhyddhad. Rhyddid. Ar ôl blynyddoedd o fod yn Gristion pybyr, dw i'n cael amheuon difrifol ond heb y dewrder i'w hwynebu. Byddai pendantrwydd yn rhyddhad.
- Chwithdod ond dim syndod. Er mod i'n gapelwraig selog, rwy'n methu canfod safbwynt Cristnogol sy'n fy argyhoeddi'n llwyr.
- Byddwn ar goll; ar chwâl. Byddwn yn colli sylfaen a fframwaith fy mywyd.
- Cwestiwn amherthnasol! Mae Duw'n bod. 'Y mae'r nefoedd yn adrodd gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylo.' Salm 19:1

**Beth fyddai fwyaf tebygol o beri i chi ddod i'r casgliad hwnnw?**

- Sawl peth, fel y gred bod Duw da wedi dewis gwneud pobl ddrwg ac yna'n dewis eu poenydio'n dragwyddol.
- Y ffaith fod modd dehongli'r Beibl mewn ffyrdd sy'n porthi pob math o ragfarnau. Oni fyddai Duw wedi'i wneud yn gliriach?
- Mae'n anodd deall pam mae Duw hollalluog yn caniatáu'r fath ddioddef yn y byd ond dw i'n hyderus bod 'yr afael sicraf fry'.
- Er bod rhai pethau'n anodd eu dirnad, 'Yn awr, gweld mewn drych yr ydym, a hynny'n aneglur; ond yna cawn weld wyneb yn wyneb.' 1 Corinthiaid 13:12

**Beth fyddech chi'n ei golli fwyaf am Gristnogaeth?**

- Y ffordd mae ambell bregeth, darlleniad neu sgwrs yn cynhesu'r galon.
- Y teimlad o drefn, o berthyn, o gymdeithas.
- Diben mewn bywyd. Sicrwydd – 'Gwyddom fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sy'n caru Duw…' Rhufeiniaid 8:28
- Does dim rhaid colli dim. '"Fe'm ceisiwch a'm cael; pan chwiliwch â'ch holl galon fe'm cewch," medd yr ARGLWYDD.' Jeremeia 29:13, 14

**Ceisiwch feddwl a fyddech chi'n:**

**Dal i ddarllen y Beibl a gweddïo?**

- Darllen y Beibl efallai – mae'n rhan bwysig o'n diwylliant.
- Prin y bydda i'n darllen y Beibl. Mae'r syniad o weddi'n chwithig i mi.
- Siŵr o fod – yn y gobaith o ailennyn y fflam.
- 'Fe'm ceisiwch a'm cael; pan chwiliwch â'ch holl galon.' Jeremeia 29:13

**Dal i fynd i'r capel?**

- Weithiau, efallai.
- Byddwn, mae'n siŵr. Mae'r gynulleidfa'n fach ac yn gynnes. A dwi'n mwynhau pregeth dda.
- Siŵr o fod, er y gallai fod yn brofiad emosiynol.
- 'Mae'n bwysig ein bod yn dal ati i gyfarfod â'n gilydd. Mae rhai pobl wedi stopio gwneud hynny.' Hebreaid 10:25

**Awyddus i'ch plant/wyrion fynd i'r Ysgol Sul?**

- Pam lai? Gan esbonio mai un safbwynt a gyflwynir yno.
- Byddai'n dda iddyn nhw ddysgu'r storiâu. Mae'n rhan o'u diwylliant.
- Byddwn. Mae gwersi pwysig i'w dysgu yno.
- 'Hyffordda blentyn ym mhen ei ffordd….' Diarhebion 22:6

**Ymchwilio i safbwyntiau /crefyddau /credoau gwahanol?**

- Dyneiddiaeth o bosib.
- Go brin.
- Efallai eglwys Gristnogol arall.
- 'Canys un Duw sydd, ac un cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu;' 1 Timotheus 2:5

**Dweud wrth bobl nad ydych yn credu bellach?**

- Mi ddylwn. Ro'n i'n arfer cenhadu'n frwd dros Gristnogaeth a fyddwn i ddim eisiau byw celwydd.
- Dw i ddim yn credu y gwnawn i. Dydi hynny ddim yn fusnes i neb arall.
- Na. Fyddwn i'n gobeithio adennill fy ffydd.
- Amherthnasol. 'Ond y sawl sy'n dyfalbarhau i'r diwedd a gaiff ei achub.' Mathew 24:13

**Ydych chi'n credu y byddai ymwrthod â Christnogaeth yn effeithio ar:**

**Eich ymddangosiad/ymarweddiad?**

- Dwi'n ffansïo cael tatŵ.
- Dwi'n gyfforddus â fy steil bresennol.
- Go brin 'swn i'n dechrau slochian a smocio a chwarae bingo!
- 'Dim y colur ar y tu allan sy'n eich gwneud chi'n ddeniadol, na phethau fel steil gwallt, tlysau aur a dillad ffasiynol. Beth sy'n bwysig ydy'r hyn ydych chi'r tu mewn ...' 1 Pedr 3:3-4

**Eich dewisiadau darllen /gwylio /gwrando/ gweithgareddau hamdden?**

- 'Swn i'n canslo fy nhanysgrifiadau i'r *Tyst*, *Cristion* a'r *Cylchgrawn Efengylaidd*! Dwi'n gwerthfawrogi stwff Cristnogion, fel Rhys Llwyd, a chyn-Gristnogion fel Jim Palmer ar y cyfryngau cymdeithasol. Fel arall mae fy niddordebau'n eitha' eang.
- Dwi'n cael ambell gip ar *Y Tyst* a DCDC yn nhŷ mam.
- Dwi'n osgoi nofelau Cymraeg diweddar, yn enwedig gan ferched, sy'n llawn rhegi a rhyw ond yn mwynhau ymlacio o flaen ambell raglen rwtsh diniwed.
- Cwestiwn amherthnasol. Dw i'n mwynhau dysgu am Gristnogion a Christnogaeth, ond dwi'n rhedeg ac yn ffeltio hefyd.

**Eich perthynas â'ch teulu a'ch ffrindiau?**

- Gobeithio y byddai'r Cristnogion yn parchu fy mhenderfyniad ac na fyddai'n difetha'n perthynas.
- Prin iawn fyddwn ni'n trafod ffydd.
- Byddai'n gas gen i siomi teulu a ffrindiau.
- 'Y neb y mae iddo gyfeillion, cadwed gariad…' Diarhebion 18:24

**Eich barn ar gwestiynau mawr fel erthylu, materion LHDTC+, marw â chymorth?**

- Mae'n rhy hawdd defnyddio 'Mae'n dweud yn y Beibl…' i gyfiawnhau agwedd haearnaidd, ddidrugaredd at gwestiynau cymhleth sy'n effeithio ar bobl go iawn.
- Byddai'n rhaid i mi bwyso a mesur beth sy'n iawn – dim llyncu rhagfarnau pobl eraill.
- Mae'r Beibl yn ganllaw gwerthfawr i bawb: 'Mae dy Air yn abl i'm harwain…'
- 'Gwae'r rhai sy'n ddoeth yn eu golwg eu hunain, ac yn gall yn eu tyb eu hunain.' Eseia 5:21

**Eich agwedd wrth wynebu marwolaeth?**

- Alla i feddwl bod rhyw gysur mewn credu mai'r bedd yw diwedd y daith. Byddai'n gwneud i rywun werthfawrogi'r bywyd hwn fwy.
- Dw i wedi cael y syniad o nefoedd ac uffern yn anodd ac yn annhebygol erioed.
- Dyma un o'r prif resymau pam dw i'n awyddus i lynu at y ffydd:
  Ac yna caf fod gydag ef
  pan êl y byd ar dân,
  ac edrych yn ei hyfryd wedd,
  gan harddach nag o'r bla'n.
- Cwestiwn amherthnasol arall i mi:
  Mae hiraeth arnaf am y wlad
  lle mae torfeydd di-ri'
  yn canu'r anthem ddyddiau'u hoes
  am angau Calfarî.

A dyna'r arolwg. Oeddech chi'n gweld eich hunan yn rhai o'r atebion? Weithiau, mae'n hawdd mynd i rych a chymryd pethau'n ganiataol. Gall fod yn lles ein hysgwyd i edrych ar bethau o safbwynt gwahanol er mwyn i ni weld beth sy'n wirioneddol bwysig i ni ac ymroi i hynny.

**Sian Roberts**

(Nid yw'r hyn a ysgrifennir yn yr erthygl Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

## Encil gweinidogion yr Annibynwyr – parhad

### Caethwasiaeth

Yn y sesiwn ddilynol fe ddaeth dau addysgwr o Amgueddfa Ryngwladol Caethwasiaeth i'n hannerch. Rhan drist o hanes Lerpwl yw y bu yn borthladd pwysig i'r llongau oedd yn cludo caethweision o Affrica i America. Dyma oedd sylfaen y cyfoeth mawr a ddaeth i'r ddinas wrth iddynt fasnachu pobl. Y bwriad oedd ein bod yn ymweld â'r amgueddfa ond roedd hi wedi ei chau am ddwy flynedd er mwyn ei hadnewyddu gan ailstrwythuro'r arddangosfeydd. Er hynny fe gafwyd cyflwyniad arbennig gan Adam ac Ella. Roedd y ddau ohonynt yn gyfathrebwyr wrth reddf. Adam oedd y prif siaradwr ac fe gyflwynodd inni erchyllterau dieflig caethwasanaeth mewn ffordd drawiadol. Esboniodd sut y buont fel staff yn trafod y ffordd yr oedd creiriau yn cael eu harddangos a'r effaith roedd hynny'n ei gael ar ymwelwyr. Roedd Adam ac Ella o dras Affricanaidd ac roedd hynny wedi grymuso'r neges oedd ganddynt oherwydd ei fod yn deillio o'u calonnau ac o brofiadau eu cyndeidiau.

*Bydd gweddill yr erthygl yma yn y rhifyn nesaf*



# Gwobr dewrder eithriadol

Mae Elin Locke, aelod o Saron Creunant, wedi ennill Gwobr Dewrder Eithriadol yng Ngwobrau Maer Castell-nedd Port Talbot, a gynhaliwyd yn Orendy Margam.

Daeth y gydnabyddiaeth ar ôl digwyddiad dramatig y llynedd, pan oedd Elin ar ei ffordd adref o'r gwaith. Wrth deithio, daeth ar draws damwain ddifrifol lle trawyd cerddwr gan gar. Roedd y dioddefwr wedi colli ei goes yn dilyn y gwrthdrawiad.



*Elin gyda maer Castell-nedd a Carl Payne*

Heb oedi, Elin oedd y cyntaf yno ac aeth ati ar unwaith i roi cymorth brys. Er bod y sefyllfa'n eithriadol o ddifrifol, llwyddodd i gadw'r dyn yn fyw trwy weithredu'n gyflym ac yn ddewr ar ôl yr anaf difrifol.

Roedd y gyrrwr yn feddw ac wedi ffoi o'r safle ar ôl y digwyddiad. Fodd bynnag, llwyddodd Elin i dynnu lluniau o'r sawl oedd yn gyfrifol cyn iddynt ddianc, gan helpu'r heddlu yn eu hymchwiliad. Er bod nifer o geir eraill wedi pasio'r safle, Elin oedd yr unig un i stopio a chynnig cymorth ar unwaith. Yn ôl meddygon, roedd ei gweithred yn hollbwysig ac fe achubodd fywyd y dyn.

Wrth gyflwyno'r wobr, canmolwyd Elin am ei dewrder, ei hymateb chwim a'i pharodrwydd i helpu mewn sefyllfa mor heriol.


Diolch i Dduw am ei blant fel Elin, annwyl.

**Rhys Locke**

# Anrhydeddu

Fe anrhydeddwyd Wynford Ellis Owen gydag un o wobrau Bywyd Egnïol Times Sternberg 2026, a hynny yn Downing Street ar ddydd Iau 23 Ebrill. Mae'r wobr yn cydnabod cyfraniadau neilltuol i fywyd cyhoeddus a chymunedol a wnaed ar ôl cyrraedd 70 oed. Sefydlwyd y gwobrwyau hyn yn 2008 gan Syr Sigmund Sternberg mewn partneriaeth â'r Times. Y bwriad yw dathlu cyfraniad a gwasanaeth unigolion hŷn.

Llongyfarchiadau mawr iawn iddo a diolch o galon am ei waith rhagorol gyda Cynnal. Y mae Wynford yn aelod o eglwys Annibynnol Gwaelod y Garth.



*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*